Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Hydref 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, John Jones Clifford Williams – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard, Delyth Evans – Pentrefelin, Iddon Edwards Dafydd Thomas – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Gwenno Emlyn Huws, Manon Jones Evans,

3 **Ddim yn bresennol** – dim.

4 **Datgan buddiant** – eitem 17 Edward Evans.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 2/9/21 John Jones yn cynnig ei bod yn gywir ac Edward Evans yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Mynwent Cwm Pennant – contractwr wedi cytuno i dorri'r llwybr o'r bont.

Mynwent Bethel - rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth y ddau fedd cadw yn Rhes D.

Prenteg – modurdy yn y maes parcio. Aelod o staff Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r modurdy. Adroddwyd hefyd fod modur yn y maes parcio heb symud ers blwyddyn. Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle gydag aelod o staff yr Adran Eiddo.

Materion Priffyrdd – tyllau ar wyneb y lôn ger Carreg Frech, Golan wedi ei llenwi. Torri gwair ar ochor y lôn o'r Bryn, Penmorfa i gyfeiriad Golan wedi ei ychwanegu at y rhaglen waith.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel – y fainc newydd wedi cael ei osod yn y Fynwent.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Tŷ'n Ffridd - Ffridd Newydd, Garndolbenmaen, Bont Wern - Pont Faen, Pentrefelin. Adran Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, wedi gaddo y byddai'r llwybrau yn cael sylw diwedd Mai/dechrau Mehefin, ond nid yw hyn wedi digwydd. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Golan

Mae angen tocio'r coed o amgylch y lloches bws. Cynghorydd Amanda N Owen am edrych os yw'r coed yn tyfu allan o'r wal a gadael i'r Clerc wybod.

Garndolbenmaen

Problemau Parcio Cambrian Terrace. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i holi os yw'r ymgynghoriad gyda'r trigolion lleol wedi digwydd.

Biniau Cambrian Terrace – Clerc i gael prisiau fframiau i'w cadw.

Tai Bro Gwgan - Clerc i gysylltu gyda Cynefin i holi pa bryd fydd y gwaith ail rendro yn cychwyn.

Pentrefelin

Ger y Llwyn - problemau parcio yn parhau. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i ofyn a yw'n bosib gosod llinellau melyn ar y ffordd.

Treflys – brigau ar hyd y lôn angen eu torri. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Stephen Churchman y cyfarfod.

10 **E-bost gan berchennog Gyfyng, Cwm Pennant**

Derbyniwyd cais gan berchennog Gyfyng i gael mynychu cyfarfod o'r Cyngor er mwyn cael egluro ei gynlluniau ar gyfer yr eiddo uchod. Penderfynwyd gwrthod ei gais, ond cynnig iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig o'i gynlluniau at y Cyngor.

Mae'r Cynghorydd Stephen Churchman wedi cyfarfod gyda'r perchennog i drafod ei gynlluniau ar gyfer yr eiddo. Trafodwyd y ffaith fod man gwan yn y ddeddfwriaeth bresennol, sef ei bod yn bosib cael tystysgrif eithrio os nad oes adeiladau parhaol ar safle gwersylla. Penderfynwyd cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor AS i ofyn am ei gymorth i gau'r man gwan yn y ddeddfwriaeth bresennol.

11 **Sedd Wag Garndolbenmaen**

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais i gynnal etholiad. Mae rhyddid gan y Cyngor i gyfethol i'r sedd wag. Penderfynwyd gofyn am ddiddordeb erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

Gadawodd y Cynghorydd Amanda N Owen y cyfarfod.

12 **Cymdeithas yr Iaith – cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai**

Bydd Osian Jones un o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn beicio o Gaernarfon i Gaerdydd i dynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn effeithio cymunedau ar draws Cymru. Bydd Osian yn cyflwyno llythyr i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fel rhan o rali Nid yw Cymru ar Werth a gynhelir tu allan i Senedd Cymru. Derbyniwyd cais i'r Cyngor Cymuned ychwanegu ei enw i'r llythyr sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru weithredu i reoli'r farchnad dai. Penderfynwyd cefnogi'r cais. Clifford Williams yn cynnig a Huw Pritchard yn eilio.

13 **Hwb Eifionydd – Meddygfeydd Porthmadog a Chriccieth**

Yn ddiweddar, mae Meddygfeydd Criccieth a Porthmadog wedi cyfuno ac yn cael eu galw yn Hwb Eifionydd. Ymddengys fod diffyg cyfathrebu gyda chleifion wedi golygu bod claf sy'n arfer mynychu, er enghraifft, Meddygfa Porthmadog, yn darganfod fod ei apwyntiad wedi cael ei drefnu ym Meddygfa Criccieth. Penderfynwyd ysgrifennu at Reolwyr y Meddygfeydd ac at y Cynghorydd Mike Parry, Cynrychiolydd Unllais ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr.

14 **Rhoddion Ariannol**

Er mwyn cael manylion cyswllt a banc cywir pob mudiad sy'n gwneud cais am gymorth ariannol, penderfynwyd gofyn i bawb lenwi Ffurflen Gais am Gymorth Ariannol.

15 **Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cynigion Cychwynnol**

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi ei hadroddiad Cynigion Cychwynnol Arolwg o Etholaethau Seneddol ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru.

Trafodwyd y cynigion, ond penderfynwyd peidio gwneud sylwadau arnynt.

16 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – Rhybudd Cau'r Ffordd Dosbarth gyferbyn â Chae Gors, Clynnog Fawr. Rhannwyd 15/9/21.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Dod yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

b Ymgynghoriad ar ddefnydd peryglus cychod dwr hamdden a phersonol (jet skis). Dyddiad cau 1/11/21.

c Unllais Cymru – Hyfforddiant Medi/Hydref.

ch Unllais Cymru – Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn.

d Unllais Cymru – Gweminar ar grantiau amgylcheddol. 15/10/21.

dd Cadwch Cymru'n Daclus – Cyflwyniad Caru Cymru.

e Cadwch Cymru'n Daclus – Pecynnau Cychwynnol Lleoedd ar gyfer Natur ar gael.

f Cyfoeth Naturiol Cymru Tîm Llwybr Arfordir Cymru – Arolwg Ffermwyr/Tirfeddianwyr ar hyd llwybr yr arfordir.

ff Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru – enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned. Trafod mis nesaf.

17 **Cynllunio**

Rhestrau – 3/9, 10/9, 17/9. 24/9/21.

Ceisiadau Cynllunio

C21/0800/36/LL C21/0801/36/LL Adeiladu storfa dderbyn slyri a 20m o sianel dan ddaearol a chodi sied drosto. Bryn Refail, Bryncir.

Dyddiad cau 20/9/21. Dim gwrthwynebiad.

18 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - dim.

Monitro'r Gyllideb: Gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd ar gyfer Mynwentydd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Brodyr Evans	=	£4,968.00
Yr Wylan (hysbyseb Medi)	=	£ 16.00
Y Ffynnon (hysbyseb Gorffennaf)	=	£ 14.00
Ychwanegwyd		
Gardencraft	=	£ 499.00

Derbyniadau - dim.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.15 Cyfredol £28,162.94.

19 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Meddygfeydd Hwb Eifionydd;
- Comisiwn Ffiniau i Gymru – Cynigion Cychwynnol;
- Swydd Clerc;
- Cais Cynllunio

Gwefan: Cofnodion mis Medi, Hysbyseb Swydd Clerc, Hysbyseb o Archwiliad Allanol, Hysbyseb Cyfethol.